

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 1

Yn rhad ac am ddim

Ebrill 2022

Ebrill

31	1 	2
----	---	---

Gwir neu Gau?

Drama Ddoniol

gan Rob Evans

Fel gwobr am eistedd o flaen y cyfrifiadur trwy'r bore roeddwn wedi gwneud addewid i fi fy hun i gael prynhawn efo'r camera yn dilyn yr afon o dafarn yr Angel ym Mhontneddfechan hyd at Sgwd Gwladys. Roeddwn i wedi gwneud brechdanau ac roedd y bag wedi pacio felly, ffwrdd â fi. Roedd rhaid cael tanwydd a phiciais i mewn i orsaf betrol, llenwi'r tanc, twrio yn fy mhoced am y mwgwd a mynd i mewn i dalu. Doedd neb yn aros wrth y til ond roedd yn amlwg bod y ferch hanner ffordd trwy ddelio efo cwpl parchus iawn eu golwg. Dyma nhw yn dod yn ôl efo boteli o ddŵr, y gŵr yn dod heibio fi ond y wraig yn aros tu ôl i mi.

Roedd yn amlwg i mi fod y ferch wedi tynnu ei sylw ar ryw 'meal deal' oedd y cwmni yn cynnig. Rhywbeth fel - am bob pecyn o frechdanau allwch chi gael potel o ddiod, bar siocled neu greision am bris rhatach na phrynu nhw ar wahân. Dw i ddim yn sicr a oedden nhw

mor awyddus â hynny ond, chwarae teg, roedd y ferch wedi trio'i gorau. Dyma sut aeth y sgwrs:

"Right" meddai'r ferch, "you can have a bar of chocolate each now."

Trodd y dyn at y silffoedd hir o bob math o barau o siocled a dewis barau Bounty a'u pasio at y ferch. Mae hi'n sganio'r cod a dweud.

"Sorry those don't appear to be in the deal." Mae'r dyn yn rhoi'r Bounty yn ôl efo'r lleill a dewis KitKats.

Mae'r ferch yn eu sganio nhw ac yn dweud "Sorry, those aren't in the deal either"

Mae'r KitKats yn mynd yn ôl ac mae'r dyn yn trio'r Marathons.

Yr un peth eto "Sorry they don't seem to be in the deal either"

Rŵan dw i'n clywed ei wraig tu ôl i mi yn giglo, troais ati hi a dweud "Seems very difficult to get something for nothing here isn't it!"

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

“This could take some time” medde hi ac wedyn dweud wrth ei gwr “I think I’ll wait in the car Frank.”

Frank rŵan yn gofyn i’r ferch “Could you tell me which ones qualify for the deal then.”

Hithau’n dweud “I don’t know, I suppose you’ll have to try them all, I think all the crisps are included.”

Trodd Frank at y creision ond, wrth y ffordd wnaeth o edrych arnaf fi yn amlwg doedd o ddim yn ddyn creision. Cododd ddau becyn a mynd tuag at y ferch, newid ei feddwl a rhoi nhw’n ôl ar y silff.

“It’s alright, I’ll just have the sandwiches and the water.” Medda fo wrth y ferch.

“Ah” medda’r ferch “that will cost you more because its no longer a ‘meal deal”

Erbyn hyn roeddwn i’n gweld y dyn yn colli’r ysbryd i fyw ond, chwarae teg roedd o dal yn gwrtais. Edrychodd ar y creision ar y silff ac fel dyn oedd wedi colli brwydr fawr y diwrnod, dewisodd dau becyn a’u rhoi nhw ar y cownter.

“There we are,” medde’r ferch yn orfoleddus. “put your pin number in please, yes, its all gone through. Enjoy the rest of your day!

Wrth iddo fy mhasio ar ei ffordd at y drws dywedais “you couldn’t make it up could you?”

“Not without an awful lot of imagination” medde fo,” sorry to have kept you waiting!”

Nes ymlaen pan o’n i’n cerdded wrth ochr yr afon ac yn mwynhau heddwch y dydd eisteddais ar garreg ac estyn i mewn i fy mag am y brechdanau. O diar! Roeddwn i wedi eu hanghofio, efallai dylwn i wedi cymryd mantaïs o’r ‘meal deal’.

Na, dw i ddim yn meddwl, roedd yn llawer haws i wylïo’r ddrama yn mynd ymlaen o flaen fy llygaidd. Dydy chwarae rhan y prif gymeriad ddim yn hwyl pob tro!

Wel? A ydw i wedi bod yn eich twyllo chi? Mae’n Ebrill y cyntaf wedi’r cwbl.

Na, mae’r stori yn hollol wir, wel efallai ddim yn hollol. Dydw i ddim yn sicr mai Frank oedd ei enw go iawn!

Gwlad Beirdd

Yn ardal Y Bari mae grŵp wedi bod yn edrych ar y thema 'Teulu' ac wedi creu rhai cerddi acrostig. Beth sydd yn gwneud cerdd yn acrostig?

Am yr ateb ewch i dudalen 15

Teulu

gan Jean Carlisle

Tragwyddol - gyda

Ein gilydd

Undod

Lwcus

Un.

Teulu

gan Ann Simons

Teulu - dyna’r gwraidd o le daethon ni
Erbyn hyn mae’n hen bryd eu trysori
Unwaith y byddant wedi mynd, nid yw byth yr
un peth

Lot o atgofion yn ystod y blynyddoedd
Unedig fel teulu - llawn chwerthin, llawn
dagrau.

Teulu

gan Megan Wilson

Teulu ma a theulu yna

Ewch i weld y byd...

Uffern i'r teulu ambell waith -

Loes, colled a dagrau

Un diwrnod, cryfder i sefyll mewn undod

Teulu

gan Jan Mathias

Teulu ni dros y byd yn gyfan

Enfys o wynebau hardd a gwahanol

Un wên yn ymglyfuno pob un - yn

Lun perffaith, llun rhyfeddol

Undeb o bobl yn dymuno byw mewn cytgorod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cofiwch eich Sanau!

gan Marie Mills



Dw i'n hoff iawn o anifeiliaid. Ond mae un fath o anifail dw i ddim yn hoffi o gwbl. Pan dw i'n meddwl amdany'n nhw, dw i'n teimlo'n sâl. Pa fath o anifail ydy o? Lindys. Ie, lindys! A pham dw i ddim yn eu hoffi nhw? Wel, pan ro'n i'n bedair oed roedd rhywbeth wedi digwydd, rhywbeth doedd ddim yn neis iawn. Dyma'r stori...

Ro'n i'n byw yn y dre gyda fy nheulu: Mam, Dad, fy chwaer ifanc a Ffred bach ein ci hyfryd iawn. Roedd gardd gyda ni a ro'n i'n mwynhau chwarae yno yn fawr iawn.

Un diwrnod deffrais i'n gynnar iawn. Roedd y teulu i gyd yn cysgu ond ro'n i eisiau chwarae. Felly, codais a gwisgais. Ond doedd dim sanau, dw i'n cofio hyn yn glir. Beth bynnag, codais ac es i i'r ardd.

Roedd sied wrth y wal a ro'n i eisiau mynd tu ôl iddo. Dw i ddim yn cofio'r rheswm nawr. Doedd dim llawer o le oherwydd y wal. Ond ro'n i'n blentyn ystyfnig iawn. Felly, gwasgais fy hun tu ôl iddo. Pan des i allan i'r ardd eto roedd rhywbeth yn bod ar fy nhroed. Edrychais arni hi. Ych a fi! Roedd lindysyn wedi ei wasgu ar fy nhroed i. Ar fy nghroen i! Roeddwn i'n teimlo'n ofnadwy.

A nawr dw i ddim yn gallu dioddef nhw o gwbl!

Fy Nhaith Gyntaf

gan Angela Yeomans

Ar ddydd Sadwrn 26 Chwefror ymunais â thua ugain o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd am daith gerdded yng Nghefn Onn, ardal Caerdydd.

Roedd y lle yn hawdd iawn i gyrraedd oherwydd bod gorsaf trên yn union y tu allan i

gatiâu'r parc. Roedd y tywydd hefyd yn braf, mor wahanol i'r storm ofnadwy'r wythnos o'r blaen - felly dechreuad perffaith i'r diwrnod. Fel dysgwyr mae hi weithiau yn anodd dod o hyd i gyfleoedd i siarad â Chymry Cymraeg yn y byd go iawn tu fas i'r dosbarth Cymraeg. Felly ar ôl clywed am y gymdeithas gan fy nhwtor Cymraeg, penderfynais ymuno â'r daith. Roedd pawb yn gyfeillgar ac yn amyneddgar felly diflannodd unrhyw nerfusrwydd â deimlais ar y cychwyn, yn gyflym. Yn fuan ro'n i'n siarad â phawb a dim yn poeni am wneud camgymeriadau ac yn mwynhau'r cyfeillgarwch a oedd yn parhau trwy ystod y daith.



Roedd y daith ei hun yn parhau am tua 7 milltir trwy'r ardal i'r gogledd o Gaerdydd i fynydd Caerffili trwy ddyffrynnoedd a brynau gyda golygfeydd godidog a heibio ffermydd a defaid, afonydd a nentydd.

Felly ar ôl diwrnod anhygoel fyddwn yn annog dysgwyr eraill i wneud y gorau o gymdeithasau fel CELL er mwyn cwrdd â phobl hyfryd sydd yn awyddus iawn i'ch helpu chi ar eich taith trwy'r iaith

Neges o Ochr Arall y Byd

gan Guy Nicholson

Guy Nicholson ydy fy enw i a dwi'n byw yn Hobart, Tasmania. Fel Robin Roberts oedd yn sgwennu yn Y Wennol ym mis Mawrth dwi'n aelod o'r dosbarth Cymraeg U3A yn Kingston. Dyn ni'n cyfarfod bob wythnos (ers 2010) ac yn cymryd rhan mewn sgwrs bob mis efo deg o bobl eraill yr ardal.

Rydym yn defnyddio Cwrs Uwch 1 i oedolion yn y dosbarth, darllen a siarad am erthyglau yng Nghymraeg ac yn canu rhywbeth newydd bron bob wythnos. Fel arfer mae gynnon ni ddosbarth i ddechreuwyd yn Kingston hefyd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae gan y dosbarth arweinydd (Bronwen) sy'n trefnu pethau ond rhai eraill ohonom ni sy'n gyfrifol am weithgareddau. Mae rhai aelodau'r dosbarth wedi cwblhau cyrsiau canolradd neu uwch yn Nant Gwrtheyrn pan roedd cyfle iddyn nhw fynd i Gymru.

Mae'n bwysig i ddysgwyr ymarfer siarad efo rhywun sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn y gorffennol roeddem yn cael cefnogaeth enfawr gan fy ngwraig Margaret (Griffiths) oedd yn byw yn Harlech a Niwbwrch pan oedd hi'n ifanc. Yn anffodus bu farw Marg yn annisgwyl yn 2018. Ar hyn o bryd mae gynnion ni ddynes sy'n dod o sir Gaerfyrddin yn wreiddiol ac yn siarad Cymraeg yn rhugl, sef Mair.

Mae mwyafrif y myfyrwyr yn dysgu Cymraeg y gogledd oherwydd dylanwad Margaret ond mae'n bwysig i ddeall acennau Cymru i gyd. Mae Mair yn amyneddgar ac yn cynnig llawer o gefnogaeth i bawb yn y dosbarth hefyd.

Mae'n llawer o hwyl i ddysgu Cymraeg ond mae'n haws os dach chi'n byw yng Nghymru. Cyn y sefyllfa Cofid ro'n i'n mwynhau teithio i Gymru ac yn siarad Cymraeg efo bobl leol yng Ngwynedd. Gobeithio bydd hi'n bosib unwaith eto cyn bo hir.

Darllen yn y Gymraeg

gan Patrick Soper

Dwi'n cofio'r mis Medi'r flwyddyn honno y cafodd aelodau ein dosbarth Cymraeg restr llyfrau Cymraeg syml. Dywedwyd wrthon ni roedd rhaid inni ddarllen un ohonyn nhw cyn diwedd ein cwrs ym mis Gorffennaf.

Gwnaeth y misoedd hedfan heibio, a phrin nes i edrych ar y rhestr. Wedi'r cwbl, darllen llyfr yn Gymraeg .. fi? Annhebyg. Ond wrth imi eistedd yn y dosbarth un bore a'r flwyddyn yn dirwyn i ben sylweddolais dim ond un wythnos o'r cwrs oedd ar ôl. Amser panicio!


Cyn gynted ag y daeth y dosbarth i ben dyna fi'n brysio i'r llyfrgell drws nesaf, gan afael yn dynn yn y rhestr. Wrth imi nesáu at y silff Llyfrau Cymraeg, y llyfr cyntaf nes i'w weld oedd Bywyd Blodwen Jones gan Bethan Gwanas. Am ryddhad! Cipiais y llyfr o'r silff ac es i adref yn syth.

Pan oeddwn yn eistedd yn dawel gartref ond yn teimlo'n ansicr dros ben, agorais y llyfr. Doedd ef ddim yn hawdd, ond nes i straffaglu drwy'r tudalen cyntaf ac, wrth ddyfalu, darllenais yr ail dudalen .. a'r drydedd, a'r bedwaredd. Roedd hyn yn llyfr gyda geirfa ar waelod bob tudalen a, chyn ein dosbarth olaf yr wythnos wedyn, roeddwn i wedi gorffen y llyfr - o glawr i glawr! Popeth. Felly, gorawen .. fel breuddwyd. Roedd hynny yn drobwynt hollbwysig i mi. Roeddwn wedi goresgyn fy ofn a diffyg hyder.

Dwi'n darllen rhywfaint o Gymraeg pob dydd - straeon newyddion ar wefan BBC Cymru Fyw, efallai - a bob tro mae gen i bensil a phapur er mwyn ysgrifennu ymadroddion byrion, wrth edrych ar sut mae geiriau yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun. Ac wedyn dwi'n trosglwyddo'r nodiadau i ddogfen Word gyda dwy golofn - Saesneg / Cymraeg.

Hyd hyn mae gen i 1,500+ o dudalennu - Cymraeg ffurfiol, anffurfiol, tafodiaith neu fradiaith – sdim ots, ac mae corpws yma yn ddefnyddiol dros ben os dwi'n ceisio ysgrifennu unrhyw beth.

Mae iaith yn rym ac, yn fy marn i, goruchaf yw'r iaith ysgrifenedig.



Roeddwn i'n diwtor ar yr un pryd ac roedd fy nosbarth yn poeni pan ddywedais wrthyn nhw bod ni'n mynd i ddarllen llyfr. Roedden nhw'n poeni hefyd ond unwaith iddyn nhw ddechrau roedden nhw wrth eu boddau. Mae'n wir yn ddoniol a byddech yn sicr o chwerthin.

Peidiwch â meddwl bod darllen llyfrau'n anodd! Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Fy Nhaith Iaith

gan Gareth Mitchell

Gareth Mitchell dw i. Dw i'n byw ac yn dod o Loegr. Daeth fy nhad o De Gymru yn wreiddiol ond doedd e ddim yn siarad yr hen iaith. Fy mam yn dod o Lundain yn wreiddiol.

Tair blynedd yn ôl ro'n i'n paratoi ar gyfer taith i'r Almaen ar fy meic modur ac roeddwn yn trio ymarfer fy Almaeneg efo Duo Lingo pan des i ar draws cwrs Cymraeg yno. Dyna ddechreuad fy antur!

Pan o'n i'n chwilio am fwy o adnoddau i helpu fy nysgu, des i ar draws SSiW ar lein. Tair blynedd yn ddiweddarach dw i wedi gwirioni'n llwyr.

Es i i Gaernarfon i gwrdd â dysgwyr SSiW eraill ar ddechrau 2020 a dw i wedi bod yn trio siarad efo pobl ar lein pan mae'n bosib. Ond mae pethau'n fyw brysur gyda fi ar hyn o bryd felly mae e'n anodd iawn i siarad yn y dydd.

Ar hyn o bryd dw i'n dysgu ar y cwrs Sylfaen efo Coleg Gwent, a nes i sefyll prawf Mynediad ym mis Ionawr diwethaf a gobeithio dw i'n mynd i gymryd yr arholiad ysgrifenedig yn yr haf eleni. Penderfynais drïo sefyll yr arholiad Sylfaen hefyd: 'In for a penny, in for a pound'.

Gobeithio bydda i'n cael y cyfle i ddefnyddio fy Nghymraeg llawer mwy yn y dyfodol achos mae'n anodd pan dw i'n byw yn Hampshire! Does dim lawer o bobl yn siarad Cymraeg yma.

Dysgu Cymraeg

gan Simon Gregory

Simon dw i. Dw i'n byw yn Harrow, yn Llundain, gyda'r wraig a'r ferch. Mae merch arall gyda fi, sy'n rhannu tŷ, hefyd yn Llundain. Ces i fy magu yn Brisbane, Awstralia, a symudais i Loegr dri deg mlynedd yn ôl.

Dw i'n hoffi dysgu ieithoedd - dw i wedi dysgu Almaeneg ac am dipyn Sbaeneg ac Arabeg - ond

pan o'n i'n dechrau dysgu Cymraeg un deg pum mis yn ôl, gwelais i fod llawer o gyfle ar lein i ymarfer. Dw i'n siarad gyda dysgwyr eraill, ac wedi ymuno â chlwb darllen, clwb teledu a'r Clwb Cardiau Post Cymraeg. Dw i'n gallu mynd i Gymru yn hawdd hefyd, a dw i'n mynd yn aml ar wyliau bach er mwyn ymarfer ac i weld y wlad. Dw i wedi ymddeol felly mae llawer o amser gyda fi.

Dw i'n teimlo'n lwcus iawn a dw i'n hapus iawn fy mod i'n dysgu Cymraeg.

Dw i'n hoffi cerdded, chwarae tenis ac yn ymarfer Tai Chi hefyd. Dw i'n hoffi gwylio pêl droed. Arsenal yw fy hoff dîm. Dw i newydd ddechrau gwylio rygbi, achos mae llawer o ddysgwyr yn siarad amdano fe, yn arbennig pan mae Cymru'n chwarae, ond dw i'n cael hi'n anodd deall y gêm.

Byw yn Nhrefynwy

gan Rob Morgan

Shwmae pawb. Rob dw i. Robert Morgan i fod yn fanwl gywir. Dw i'n 75 oed. Pan o'n i'n blentyn yn yr ysgol doeddwn i ddim yn gwybod bod yr iaith Gymraeg yn bodoli. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 2018. Dw i ddim yn ymarfer heblaw yn y dosbarth bob Dydd Mawrth.

Dw i'n byw yn Nhrefynwy yn Ne Cymru rhwng Y Fenni a Chas Gwent. Dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg yma.

Dw i'n byw gyda fy ngwraig Patricia a dau gi, Rusty a George, hefyd parot, o'r enw Beaky. Er fy mod wedi ymddeol, dw i'n gyrru bws ysgol bob bore a bob pnawn. Mae fy ngwraig yn 72 oed ac mae hi'n gyrru bws ysgol hefyd.

Dw i'n hoffi cerdded yn y coedydd gyda fy nghi. I ddweud y gwir, dw i'n hoffi peint o gwrw ar y penwythnos yn enwedig wrth wyllo'r rygbi ar y teledu.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the language. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Byth rhy Hwyr

gan Adrian Pugh

Adrian dw i. Dw i'n byw yn sir Benfro gyda fy mhartner. Mae gennym ni un ferch ac un mab a phump o wyrion. Dw i wedi ymddeol nawr. Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 2019 mewn ystafell dosbarth yn Arberth. Ond ers Cofid mae'r gwersi wedi bod ar lein gyda Zoom. Dw i ddim yn hoffi gwersi Zoom nawr. Dw i'n dysgu Sylfaen Un ar hyn o bryd. Mae'n hi'n anodd. Mae arddodiaid yn anodd.

Roeddwn i'n ffôl yn yr ysgol a doeddwn i ddim yn gweld pwynt dysgu Cymraeg. Tua hanner can mlynedd yn ddiweddarach dwi'n difaru. Dw i eisiau dysgu iaith fy ngwlad a bod yn barod am Gymru annibynnol. Dw i'n hoffi chwarae tennis, mynd am dro, ffotograffiaeth a gwrando ar gerddoriaeth. Es i Gastell Picton gyda'r U3A Camera Group dydd Mawrth a dyma ychydig o'r lluniau a dynnais.



Darllen

gan Philippa Scannell

Mae llawer o ddiddordebau gyda fi ond tasa rhaid i fi ddewis un, baswn i'n dewis darllen. Pam?

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu colli eich hun yn nhudalennu'r llyfr.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu anghofio pethau trist neu anodd.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu gwenu neu lefain gyda'r cymeriadau.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu deall pobl eraill.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n dysgu llawer o bethau.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu breuddwydio.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n gallu arogleuo'r hen dudalennau.

Pan dych chi'n darllen, dych chi'n teimlo'n rhydd yn eich enaid.

Nawr, am un funud fach, dychmygwch, os dych chi ddim yn gallu darllen....

Bob dydd, trwy'r dydd, bob munud, byddech chi'n teimlo'n dwp. Dych chi ddim yn gallu darllen dim byd!

Yn ein carchardai, mae pum deg y cant o garcharorion yn methu darllen nag ysgrifennu o gwbl. Pan dych chi ddim yn gallu darllen nag ysgrifennu, mae e'n anodd iawn i gael swydd dda.

Dw i'n hapus iawn achos dw i'n gallu darllen yn gyflym a dw i'n mwynhau dysgu o lyfrau. Dw i'n lwcus iawn achos pan ro'n i'n ifanc iawn, roedd fy mam wedi dysgu fi i ddarllen cyn es i i'r ysgol. Mwynheais ddarllen unrhyw lyfr; es i fan y llyfrgell bob wythnos i fenthycu deg llyfr. Pob tro darllenais bob llyfr, o glawr i glawr.

Clywais i am yr elusen 'ReadEasy' am oedolion sy ddim yn gallu darllen. Dw i'n meddwl bod e'n bwysig iawn bod pob un yn gallu darllen ac ysgrifennu. Dw i'n gobeithio dw i'n gallu gwirfoddoli gyda ReadEasy rywbryd yn y dyfodol.

Mwynhewch eich darllen! Dych chi'n lwcus iawn.

Diolch Philippa

Dw i'n gwybod mod i'n mynd ymlaen ac ymlaen am y pleser sydd i gael wrth ddarllen ond mae'r erthygl yma yn pwysleisio faint mae rhywun ar goll a faint maen nhw'n colli pan nad ydyn nhw'n gallu darllen. Dim ond am ganran bach o'ch bywyd dach chi yn yr ysgol neu goleg ac mae rhan fwyaf o beth dach chi wedi dysgu yn eich bywyd yn hanu o lyfrau a phapurau newydd. Dw i ddim yn gwybod beth fydda i'n gwneud heb lyfrau i ddarllen.

Diolch byth am y wasg argraffu!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Creu Grŵp Siarad

gan Bryan Roberts

Ar ôl dysgu Cymraeg efo Say Something in Welsh dros fwy na dwy flynedd, o'n i'n teimlo'n ddigon hyderus i geisio dod o hyd i gyfle i ymarfer beth roeddwn i wedi dysgu. Wrth gwrs, oherwydd fy mod i'n byw yn Amwythig 'does dim llawer o Gymraeg yn cael ei glywed o gwmpas y dref, ond, yr oeddwn i'n eitha' siŵr bod llawer o siaradwyr Cymraeg yma dim ond i mi ddod o hyd iddyn nhw. I ddechrau, deudodd rhywun wrtha i fod 'na Gymdeithas Cymraeg felly, wnes i ymuno yn syth. Yn anffodus, er gwaethaf i'r cyfarfodydd fod yn ddiddorol iawn, ac roedd gen i'r cyfle i wrando ar siaradwyr go iawn, doedd dim llawer o gyfle i gael sgwrs.

Es i at wefan SSiW er mwyn darganfod beth oedd pobl yn eu dweud ar y fforwm. Yna roedd manylion am grwpiau sgwrsio yn enwedig yng Nghymru, ond yn llawer o lefydd yn Lloegr hefyd a dros y byd i gyd, felly meddyliais, rhaid bod rhywbeth tebyg yma yn Amwythig, ond, doedd 'na ddim. Felly, yr unig beth oedd ar gael imi oedd dechrau grŵp sgwrsio a fydd yn agor i bawb, dysgwyr newydd a Chymry Cymraeg. Rŵan, fel arfer mae 'na bedwar neu bump ohonom ni yn cyfarfod yn y Grove Hotel, Bellevue Road, SY3 7NN am 7.30 ar y cyntaf a'r drydedd nos Iau bob mis.

Pedair blynedd yn ôl oedd hynny ac, i ddechrau, roedd 'na chwech neu saith ohonom ni, ond diflannodd rhai a rŵan, does dim ond pump ohonom ni, dau o ddysgwyr newydd, dau wedi bod yn dysgu am ychydig, ac un Cymro iaith gyntaf. Dipyn o gymysgedd i ddweud y gwir ond, yn fy marn i, mae'n gweithio.

A beth ydyn ni'n gwneud dach chi'n gofyn dw i'n siŵr? Wel i fod yn onest, dim byd ond siarad ac yn cael dipyn o hwyl oherwydd, os oes unrhyw un eisiau dysgu'r iaith, mae 'na lawer o gyrsiau ar gael mewn mannau arall. Wrth gwrs, mae pawb yn awyddus iawn i helpu ei gilydd os bydd angen

Os oes gan unrhyw un diddordeb i ymuno â ni dewch draw tua hanner awr wedi saith, bydd croeso cynnes i chi. Os oes gennych gwestiynau teimlwch yn rhydd i gysylltu â fi. bryro@btinternet.com ydy fy nghyfeiriad e-bost.

Cofio

gan Susan Gilson



Pan soniodd Rob yn Y Wennol mis Mawrth am ymweld â siop goffi Coalhouse yn Rhydaman a mwynhau clywed y Gymraeg yn cael ei siarad, daeth â llawer o atgofion melyn yn ôl i mi.

Cefais fy magu yn Rhydaman a byw yno am bron i ddeng mlynedd ar hugain. Roedd fy mam-gu yn byw yno. Dau gefnder hefyd drws nesa ond un, a chefnder arall yn y stryd nesa. Roedden nhw tua'r un oed â fy chwaer a minnau. Cerddon ni i'r ysgol gyda'n gilydd. Ar ôl ysgol buom yn chwarae gyda'n gilydd allan ar ein stryd nes iddi fynd yn rhy dywyll i hyd yn oed gweld ein pêl rownders. Saesneg oedd iaith ein chwarae.

Roedd ein cymdogion yn siarad Cymraeg ac roeddwn i wrth fy modd yn clywed fy mam a'n cymydog yn dod i'r byd yn ei le wrth iddyn nhw sgwrsio dros wal yr ardd. Ar yr ochr arall, byddai Mam a Mrs Jones drws nesaf yn trafod y tywydd dros ffens yr ardd wrth i'r ddau brysuro eu hunain yn rhoi'r golch ar y lein.

Ond tu mewn i'r tŷ byddai mam yn dychwelyd i'r Saesneg neu'n hytrach Wenglish pan oedd hi'n defnyddio gair Cymraeg i bwysleisio rhywbeth neu os na allai feddwl yn gyflym am yr un Saesneg cyfatebol. Ni allai hi byth, er enghraifft, roi'r fersiwn Saesneg o 'hiraeth' i ni.

Bryd hynny roedd tri chapel Cymraeg llewyrchus yn Rhydaman ac fel teulu roedden ni'n mynychu Capel yr Annibynwyr Cymraeg, gan feddiannu'r un sedd bob dydd Sul. Ni siaredid gair o Saesneg ac yn aml roedd yn rhyddhad dod allan i glywed teuluoedd yn sgwrsio yn y Gymraeg roeddwn yn gyfarwydd â, sef iaith yr aelwyd. Roedd geirfa hir a difrifol y pulpud yn aml y tu hwnt i'm dealltwriaeth. Ond fe wnes i fwynhau canu'r emynau a dwi'n meddwl ei fod yn debyg mai dyna oedd fy nghyflwyniad i ddarllen

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cymraeg. Es ymlaen i ddarllen y cylchgrawn 'Cymru'r Plant' ac roeddwn yn edrych ymlaen at ei dderbyn bob wythnos.

Yn ystod gwyliau'r ysgol, bob dydd Gwener byddwn yn cerdded i mewn i'r dref gyda mam i'w helpu i gario'r siopa wythnosol. Ar y diwrnod hwn byddai Rhydaman yn fwrlwm nid yn unig gyda siopwyr ond gyda'r Gymraeg. Byddai dau neu dri bws yn cyrraedd gyda phobl o'r cymoedd yn dod lawr i siopa yn y farchnad awyr agored. Byddent yn cyrraedd o Lanaman, Garnant, Brynman a Chwmgors lle magwyd fy mam. Roedd hi mor ddiddorol eu clywed yn siarad gyda ffrindiau eu plentyndod ac yn dal lan ar newyddion o'i bentref. Byddent yn sôn am bobl fel John y siop, Nansi Tŷ Twt, Mrs Hughes Y Tŷ Newydd; cymeriadau o fyd arall i mi oedd y rhain; Ro'n i'n deall y sgwrs amdany'n nhw yn iawn er nad oeddwn i'n siarad eu hiaith nhw.

Mae'n rhyfedd oherwydd, am ba bynnag reswm, doedd neb yn ein hannog ni i siarad Cymraeg. Mae'n ymddangos fel bod yr iaith wedi colli cenhedlaeth. Byddai mam-gu yn dod draw bob wythnos a byddai hi a mam yn sgwrsio wrth fwrdd y gegin dros gwpaned o de. Yn naturiol roedden nhw'n siarad yn Gymraeg, ond wedyn yn troi ata i ac yn siarad Saesneg, yn aml iawn roedden nhw'n cyfieithu'r hyn roedden nhw wedi bod yn ei drafod er fy mod wedi deall y cyfan.

Wrth edrych yn ôl, roedd tyfu lan yn Rhydaman gyda fy nghefnidryd Cymreig yn bendant wedi rhoi'r hyder i mi siarad yr iaith. Mae'n syndod i mi faint o'r iaith wnes i ei amsugno dim ond trwy ei glywed. Heddiw mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy fynychu'r grŵp wythnosol Cymraeg yn y caffi lleol, bod yn aelod o'r Gymdeithas Cymraeg a mynychu ein gwasanaeth Cymraeg crefyddol pob mis. Mae'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith o'n cwmpas ym mhob man.

Beth am y dyfodol? Wel dwi'n edrych ymlaen at ymweld â'r Coalhouse yn Rhydaman i fwynhau cwpaned o goffi ac wrth gwrs i flasau'r Gymraeg. Diau y bydd yn dod â mwy o atgofion yn ôl ac y byddaf yn cadw'r stori yna am ddiwrnod arall.

Llythyr o Tasmania

gan Robin Roberts

Nid yw llawer o bobl y tu allan i Gymru yn gwybod am ddydd Gŵyl Dewi ac yn sicr mae hyn yn wir yn Tasmania.

Eleni bydd Mawrth 1af yn cael ei gofio, nid ar gyfer dathlu ond, oherwydd bod dau o dri chebl pwysig sy'n cyflenwi ffôn rhynggrwyd a theledu i'r ynys wedi'u torri mewn dau ddigwyddiad nad ydynt yn gysylltiedig.

Roedd Tasmania ar wahân i weddill y byd am y rhan fwyaf o'r prynhawn. Nid oedd neb yn gwybod beth oedd yn digwydd i'r gwasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt y dyddiau hyn.

Achosodd dipyn o anhrefn yn Tasmania. Yn ffodus, cafodd y broblem ei datrys yn gyflym ond bu i lawer ohonom grafu ein pennau pan nad oeddem yn gallu defnyddio technoleg i gysylltu â'n gilydd.



O'r chwith i'r dde - Robin Roberts, Aloha Lambert, Bronwen Parr, Jane Keble-Williams, Mair Coughlin, Viv Jones, Serena Rule, Guy Nicholson, Wendy Evans. Mae pawb (heblaw Serena) yn dysgu yn y dosbarth Cymraeg. Roedd un ohonom ni - Peter Ball, yn absennol. Mae 'na pump yn y dosbarth i ddechreuwy'r eleni hefyd (sy ddim yn y llun).

Ardderchog! Pymtheg o ddysgwyr yn Hobart! Ac yn dod at ei gilydd er mwyn siarad ein hiaith hyfryd. Pob clod i chi. Rob

Taith gerdded i Ddysgwyr
Manylion ar dudalen 14

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hanes Y Gymraeg

Y 19eg Ganrif - Rhan 3:

Brad y Llyfrau Gleision (2)

gan Martin Jones

Yn yr erthygl flaenorol, gwelon ni sut aeth y tri chomisiynwr Saesneg y tu hwnt i'w brîff i adrodd ar gyflwr addysg yng Nghymru a gwneud sylwadau sarhaus ar yr iaith Gymraeg, ar Anghydfurfiaeth, ac ar ffordd o fyw'r Cymry. O safbwynt yr iaith, i rai roedd yr adroddiad yn sbardun i ddiogelu'r Gymraeg, a phenderfynodd rhai gwladgarwyr sefydlu trefedigaeth Gymraeg dramor. Roedd yr ymdrech i gyflwyno'r fath trefedigaeth yng Ngogledd America'n aflwyddiannus achos cafodd yr ymsefydlwyr hi'n anodd cadw eu hunaniaeth Gymraeg. Ond ym 1865, hwyliodd 163 o bobl am Batagonia gyda bwriad o sefydlu trefedigaeth Gymraeg ymhell i ffwrdd oddi wrth ddylanwad Saesneg. Er gwaetha caledi anhygoel, llwyddodd y Wladfa ac ym 2014 yn ôl amcangyfrif gan Brifysgol Caerdydd roedd tua 5,000 o bobl ym Mhatagonia yn siarad Gymraeg.

Ond hyd yn oed cyn y Llyfrau Gleision, roedd rhai'n dechrau teimlo bod dysgu Saesneg yn ddefnyddiol ac yn llesol. Iddyn nhw, iaith yr aelwyd ac iaith crefydd oedd Gymraeg - iaith materion y byd oedd Saesneg. Fel mae'r Llyfrau Gleision yn dangos, yn y mwyafrif llethol o ysgolion yng Nghymru, Saesneg oedd iaith dysgu. A chan roedd plant yn dysgu Cymraeg gartref ac yn yr ysgolion Sul, ac roedd presenoldeb yn yr ysgol yn wirfoddol, mae'n debyg roedd rhieni'n hapus i anfon eu plant i'r ysgolion hyn. Cryfhaodd y Llyfrau Gleision y farn hon, ac o hynny ymlaen roedd y Cymry fwyfwy'n ystyried eu hiaith eu hunain yn iaith eilradd - agwedd sy ddim wedi diflannu'n llwyr hyd yn oed heddiw.

Efallai nid syndod ydy hyn, achos taw cyfnod o dwf aruthrol yr Ymerodraeth Brydeinig oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac roedd Saesneg yn cael ei gorfodi ar bobl ledled y byd. Ac efallai yr oedd hi'n anochel y byddai'n rhaid i'r Cymry ddysgu Saesneg. Ond trasiedi'r Gymraeg oedd diffyg dealltwriaeth o fanteision addysg ddwyieithog bryd hynny pan oedd y Gymraeg yn

dal yn iaith feunyddiol i ran fwyaf o'r bobl - ac mewn cyfnod pan oedd y nifer o bobl oedd yn symud i mewn i Gymru'n cynyddu. I'r gwrthwyneb, credwyd byddai Cymraeg yn effeithio ar Saesneg y plant. Ym myd addysg, daeth y thema taw "Saesneg oedd iaith dod ymlaen yn y byd" yn hollbwysig, a chafodd Gymraeg ei gwrthio i'r cyrion.

Ym 1861, cafodd y "Cod Diwygiedig" ei gyflwyno, ac er mwyn derbyn ei gymhorthdal llawn o'r llywodraeth, roedd yn rhaid i bob ysgol brofi ei fod yn gwella safonau rhifydddeg, darllen, ac ysgrifennu Saesneg. Ni waharddodd y Cod i athrawon ddefnyddio'r Gymraeg, ond o ganlyniad i'r ffordd o ariannu ysgolion, doedd dim anogaeth iddyn nhw ei defnyddio - a pheidiodd colegau hyfforddi â pharatoi eu myfyrwyr i addysgu Cymraeg. Ac mewn rhai ysgolion, cafodd y "Welsh Not" ei ddefnyddio er mwyn gorfodi disgyblion i siarad Saesneg yn hytrach na Chymraeg yn yr ysgol. Os clywodd yr athro unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg yn yr ysgol, rhoddid yr "Welsh Not" (fel arfer, darn o bren a geiriau Welsh Not - neu lythrennau WN - arno fe) iddo fe neu iddi hi. Wedyn, byddai'r "Welsh Not" yn cael ei basio i'r disgybl nesaf a siaradodd Gymraeg ac yn y blaen, nes i'r disgybl a oedd gan y "Welsh Not" ar ddiwedd y diwrnod gael ei gosbi.

Nid polisi swyddogol y llywodraeth oedd y "Welsh Not", ac mae'r hanesydd John Davies wedi awgrymu nad oedd ei ddefnyddio mor gyffredin â bod pobl yn arfer credu. Ond wedi dweud hynny, mae tystiolaeth gref y cafodd y "Welsh Not" ei ddefnyddio mewn ysgolion yng Nghaerfyrddin, Ceredigion, a Meirionnydd. Ac mae'n bwysig cofio nad oedd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol tan 1880. Felly, os oedd gan brifathro bolisi o ddefnyddio'r "Welsh Not", mae'n debyg yr oedd y rhieni yn fodlon ar hyn.

Tan 1870, cafodd y rhan fwyaf o ysgolion eu darparu gan ddwy gymdeithas wirfoddol (Y British Society a'r National Society). Creodd Deddf Addysg 1870 fyrddau ysgolion lleol ac roedd ganddyn nhw'r ddyletswydd i sefydlu ysgolion mewn ardaloedd lle oedd diffyg darpariaeth gan y ddwy gymdeithas. Erbyn 1880, pan ddaeth presenoldeb yn orfodol, roedd addysg elfennol ar gael ym mhobman - ond trwy gyfrwng Saesneg. Ar y naill law, nid rhywbeth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

newydd oedd hyn - fel rydyn ni wedi gweld, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yng Nghymru wedi bod yn dysgu trwy gyfrwng Saesneg trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond ar y llaw arall, cafodd y cysylltiad rhwng “dod ymlaen yn y byd” a'r iaith Saesneg ei gryfhau yn rymus.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Caffis Eidalaid yng Nghymru

gan Huw Meredydd Roberts

Adolygiad gan Nesta Humphreys

Ydych chi'n cofio caffi Eidalaid yn eich ardal chi ac ydy e yno o hyd? Roedd 300 ohonyn nhw yng Nghymru ar un adeg.

Ro'n ni'n ddiolchgar iawn i Huw am sgwrs ddiddorol iawn gyda llawer o ffotograffau i ysgogi ein hatgofion o ymweliadau â chaffis Eidalaid. Yn gyntaf, siaradodd Huw am hanes y caffis. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr ardaloedd gwledig yn yr Eidal yn dlawd iawn. Penderfynodd llawer o bobl symud i America neu wledydd eraill yn Ewrop i chwilio am fywyd gwell. Daeth rhai ohonyn nhw o ogledd yr Eidal i Gymru.

Gwelon nhw gyfleodd yn yr ardaloedd diwydiannol yn ne Gymru, felly dechreuon nhw yn Sir Forgannwg a Sir Fynwy ac yn raddol aeth rhai i'r gorllewin a'r gogledd. Roedd tipyn bach o arian gyda phobl yn yr ardaloedd diwydiannol a ro'n nhw'n hapus i drïo rhywbeth gwahanol fel y caffis Eidalaid a oedd yn gwerthu diodydd poeth, hufen iâ (yn yr haf a sglodion yn y gaeaf), losin a sigarêts - nid pizza a phasta pryd hynny! Doedd y caffis ddim yn gwerthu alcohol ac roedd hynny'n iawn gyda phobl y capel. Cafodd un caffi'r enw, The Temperance Bar. Roedd y caffis ar agor ddydd Sul ac achos bod y busnes mor dda, ro'n nhw'n meddwl fod e'n werth talu'r ddirwy. Roedd perchenogion y caffis yn hapus i weithio'n galed i fod yn llwyddiannus a ro'n nhw eisiau cadw'r gymuned yn hapus a dod yn rhan ohoni.

Yn y dechrau roedd y caffis yn cael eu henwi ar ôl y teuluoedd ac roedd y caffis yn pasio i lawr o un genhedlaeth i'r llall. Dangosodd Huw luniau o gaffis yn y Rhondda ac Abertawe fel Rabaiotti, Pelosi a Bracchis. Roedd y teulu Bracchis yn

llwyddiannus iawn yn y Rhondda gydag ychydig o gaffis.

Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd, cafodd yr Eidalwyr ym Mhrydain eu harestio. Yn ôl yr awdurdodau ro'n nhw'n elynion estron. Ar ôl y rhyfel, penderfynodd rhai Eidalwyr newid enwau eu caffis i rywbeth mwy niwtral fel Express Cafe, Oxford Cafe a Station Cafe. Siaradodd Huw am y Kardomah yn Abertawe sydd yno o hyd ar ôl can mlynedd. Mae'n enwog achos dyna le oedd pobl fel Dylan Thomas a Vernon Watkins yn arfer cwrdd gyda'i gilydd. Mae'r Prince's ym Mhontypridd yn enwog iawn hefyd ac mae'n llwyddiannus o hyd.

Mae casgliad ardderchog o hen ffotograffau'r caffis gyda Huw. Maen nhw'n cyfleu edrychiad a theimlad y caffis, y peiriannau ar gyfer diodydd, y pethau ar werth, yr Eidalwyr wrth eu gwaith neu'n sefyll o flaen y camera ac, wrth gwrs, y cwsmeriaid. Mae'n hawdd gweld pa mor unigryw oedd y caffis yn eu hanterth. Mae Huw wedi penderfynu gwneud prosiect ffotograffiaeth i dynnu lluniau o'r caffis sy wedi goroesi, y cwsmeriaid a'r pethau sydd ar werth. Dw i'n meddwl bydd casgliad o'r hen ffotograffau a'r newydd yn record ardderchog o'r diwydiant a ddaeth yn rhan o ddiwylliant Cymru.

Diolch yn fawr iawn i Huw am sgwrs ddiddorol dros ben ac i'n haelodau ffyddlon am ddod.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 9 Mai am 7 00 yh – Ymweliad ag Eglwys Lanilltud Fawr gydag Athro Madeleine Gray.

Mae Rhaglen 2022 ar gael ar Facebook.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

**Mae manylion am Gystadleuaeth
Cymdeithas Edward Llwyd
ar dudalen 15**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Jôc Tymhorol

gan Val Richards

A ydych chi wedi clywed am y dyn a oedd yn gwneud cawl ac, trwy gamgymeriad, defnyddiodd e fylbiau cennin Pedr yn lle winwns?

Mae wedi bod yn sâl iawn. A dweud y gwir, roedd e yn yr ysbyty dros y Nadolig ac mae'n dal i fod yno. Yn ffodus, mae e'n llawer gwell nawr.

Bydd e'n dod allan yn y gwanwyn!

Gweld Geiriau

gan Val Richards

P	O	R	T	F	S	A	G	Y	DD	E	T	B	C	L
I	DD	E	I	O	LL	S	U	M	I	L	R	O	Y	A
C	O	A	M	G	Y	L	CH	I	A	D	A	U	F	Y
N	TH	B	E	W	G	R	W	S	N	RH	FF	E	A	TH
L	O	E	C	A	L	R	E	S	B	A	E	N	R	I
B	U	R	DD	N	A	P	R	O	DD	D	R	I	W	U
RH	W	Y	D	W	A	I	TH	F	O	L	TH	Y	Y	G
E	A	S	L	Y	G	R	I	T	S	W	I	C	DD	O
N	E	T	I	N	Y	LL	N	O	FF	Y	S	R	Y	L
C	E	W	T	O	S	I	LL	A	F	I	A	D	M	Y
U	S	Y	G	R	O	R	Y	M	P	U	L	E	D	G
A	R	TH	O	I	S	A	D	L	E	W	Y	R	CH	U
G	E	I	N	T	W	P	Y	N	DD	H	W	E	S	S
I	RH	O	P	U	DD	R	O	TH	S	Y	A	RH	A	L
TH	U	S	FF	A	R	W	E	L	I	O	B	I	O	DD

Yn y pos y mis yma mae 12 o eiriau i chwilio amdanyn nhw. Maen nhw'n rhedeg naill ar draws neu i lawr. - Gwnewch eich gorau!

Atebion mis Chwefror

Ar Draws - Ysbrydoli, Awstralia, cenhedlaethol, awyddus, Nadolig, archwilio.

I lawr – Ymddiriedolaeth, adeiladau, athrawes, buddugol, Tsieina, rhesymol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Darganfod Stori

Ydych chi'n chwilio am rywbeth newydd wrth ddysgu Cymraeg?
Hoffech chi brofi antur a datblygu sgiliau creadigol yn Gymraeg?
Dyma'ch cyfle.. dewch ar daith i ddod yn adroddwr
storïau, eich straeon chi!

*Are you an adventurous Welsh learner?
Would you like to explore Cymraeg creatively?
Would you like to come on a journey to become a teller of your
own tales, in Welsh!.*

Cyfres o weithdai yn ystod y flwyddyn, wyneb yn wyneb ac ar lein gydag
obsiwn i berfformio.

A series of workshops in person & an optional performance platform

Lansiad: 20fed o Fawrth

**I ddatgan diddordeb cysylltwch â Nia storidda@gmail.com
to show interest**

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

RHAGLEN 2022/ PROGRAMME

2022

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

9 MAI (Ymweliad)

**Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag
Eglwys Llanilltud Fawr**

13 MEHEFIN (Ymweliad)

Bill Jones - Ymweliad â Phriordy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)

**Richard Gammon - William Randolph
Hearst a Chastell St Donats**

10 HYDREF (Zoom – 7 30yh)

**Delyth Jenkins - Hanes y Delyn a
Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn**

14 TACHWEDD (Zoom – 7 30yh)

**Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes
wedi Anghofio**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Mawrth

Y De a'r Canolbarth

2/4/22 Plwyf Silian, ger Llanbedr Pont Steffan. Taith tua 6 milltir rhwng Y Tawela a'r Denys. Cwmins yn rhannu'r ardal, mwdlyd mewn ambell fan.

Man cyfarfod: Ger Capel y Bedyddwyr, Silian

Cod post agosaf SA48 8AR SN577508

Arweinyddion: Beryl Williams - 01570 422396

Alun Jones - 01570 423231

9/4/22 Ystrad Fflur. Cylchdaith tua 7 milltir yn ardal Ystrad -fflur. Tipyn o ddringo cymedrol a pheth tir gwlyb.

Man cyfarfod: Ger yr eglwys

Cod post agosaf: SY25 6ES SN746657

Arweinydd: John Williams 01970 617173

16/4/22 Ardal Castell Newydd Emlyn

Cylchdaith tua 6 milltir yn dilyn Afon Teifi i Genarth ac yn ôl. Peth dringo, cymedrol.

Man cyfarfod: Maes parcio yng nghanol y dref, ger y mart, tâl.

Cod post agosaf: SA38 9BA SN306407

Arweinydd: Alun Voyle 01267 275636.

23/4/22 Marina a Dociau Abertawe

Cylchdaith hamddenol tua 5.75 milltir yn dilyn llwybr yr arfordir o Neuadd y Ddinas i'r Marina a'r Dociau ac yn ôl. Cyfle i weld y trawsnewidiadau sydd wedi digwydd yr ardal hanesyddol yma. Mae'r llwybr yn gadarn ac yn wastad, felly yn addas i bawb o bob oedran.

Man cyfarfod: Maes parcio y tu allan i brif fynedfa Neuadd y Ddinas (Guildhall) Abertawe, gyferbyn a Llys y Goron.

Cod post: SA1 4PE SS644925

Arweinydd: Eirian Davies 01792 844821

30/4/22 Dyffryn Aeron

Taith tua 7 milltir o amgylch Dyffryn Aeron gan roi sylw i ambell blas a fydd i'w weld ar y daith. Man cyfarfod: Parcio ger Eglwys Trefilan.

Cod post agosaf: SA48 8QZ

SN549571

Arweinydd: Beti Davies: 01570 470350

Gwynedd a Môn

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

Dysgwyr!

Gŵyl Cerdded Cas-gwent

Taith 29

Mae'r daith yma yn rhad ac am ddim ond does dim ond lle i 20 felly **bydd rhaid cofrestru** -

www.walksinchepstow.co.uk

Cyfle gwych i ddysgwyr gyfarfod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr eraill

Dydd Sul 24 Ebrill

Rhaedrau Cleddon (Taith Gerdded Cymraeg)

Pellter: 5 milltir (llwybr cylchol)

Hyd: 3-4 awr

Anhawster: Hawdd i gymedrol

Dod â: Diodydd, byrbrydau a chamera

Man Cyfarfod a Pharcio:

10:00am Maes parcio Whitestone, Heol Trelleck, Tyndyrn NP16 6NF ST522029

Dim cŵn mae gen i ofn

Byddwn ni'n dechrau yn y maes parcio. Mae'n daith gerdded fer i fyny'r allt i'r rhaeadr. Yma, bydd amser i archwilio rhaedrau hardd Cleddon. Wedi hynny, cerddwn drwy'r goedwig hynafol gyda golygfeydd bendigedig dros Ddyffryn Gwy, cyn dychwelyd i'r maes parcio.

Tyndyrn - Tintern

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cystadleuaeth Erthygl i'r Naturiaethwr

Hoffech chi'r cyfle i ymarfer eich Cymraeg ysgrifenedig, cael cynnwys erthygl mewn cylchgrawn Cymraeg - ac efallai ennill gwobr o £150?!

Mae Cymdeithas Edward Llwyd yn cynnal cystadleuaeth unwaith eto eleni.

Beth sydd ei hangen yw erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â byd natur. Beirniadir yr erthyglau ar eu cynnwys yn bennaf, a chânt eu golygu'n ysgafn fel bo'r angen. Y dyddiad cau yw'r **1af o Orffennaf 2022.**

Dylai'r erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau, a chroesewir lluniau addas i fynd gyda hi.

Mae rhagor o fanylion, a chanllawiau i ymgeiswyr, i'w cael ar wefan y Gymdeithas: <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/canllawiau/>

Cerdd Acrostig

Wel, beth sydd yn gwneud cerdd yn acrostig?
Ydych chi wedi sylwi bod llythyren cyntaf pob
llinell yn sillafu'r teitl. Edrychwch eto.

Allwch chi ysgrifennu cerdd acrostig wrth
ddefnyddio'r gair 'Bwyta'?

Cyfeillgarwch - friendship

Parhau - to last

Dyffryn - valley

Golygfa - view

Godidog - wonderful

Nant - stream

Annog - to encourage

CELL - Cymdeithas Edward Llwyd

Awyddus - keen

Geirfa

Drama Ddoniol

Twrio - to burrow

Parchus iawn - very respectable

Gwlad Beirdd

Tragwyddol - eternal

Loes - pain

Ymglyfuno - to ally oneself

Cytgord - harmony

Cofiwch eich Sanau

Lindys - caterpillar

Sanau - socks

Ystyfnig - stubborn

Fy Nhaith Gyntaf

Cyfle(oedd) - chance(s)

Byd go iawn - real world

Neges o Ochr Arall y Byd

Arweinydd - leader

Cyfrifol am - responsible for

Gweithgareddau - activities

Amyneddgar - patient

Darllen yn y Gymraeg

Prin nes i - scarcely did I

Annhebyg - unlikely

Cyn gynted â - as soon as

Am ryddhad! - what a relief!

Cipio - to grab

Straffaglu - to struggle

Dyvalu - to guess

Ar waelod - at the bottom

O glawr i glawr - from cover to cover

Gorawen - elation

Trobwynt - turning point

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hollbwysig - all important
 Goresgyn - to conquer
 Nodiadau - notes
 Cyd-destyn - context
 Trosglwyddo - to transfer
 Dogfen - file
 Ffurfiol - formal
 Anffurfiol - informal
 Tafodiaith - dialect
 Bratiaith - adulterated language
 Corpus - body

Byw yn Nhrefynwy

Bodoli - to exist
 Trefynwy - Monmouth

Byth yn rhy Hwyr

Arddodiad - preposition
 Ffôl - foolish
 Difaru - to regret
 Annibynol - independant

Darllen

Arogleuo - to smell
 Enaid - soul
 Twp - thick
 Carchar - prison
 Methu darllen - unable to read
 Benthycu - to borrow
 Elusen - (charitable) trust
 Gwirfoddoli - to volunteer
 Pwysleisio - to emphasise
 Canran bach - a small percentage
 Hanu - to stem from
 Gwasg argraffu - printing press

Cofio

Rhydaman - Ammanford
 Atgofion melys - sweet memories
 Cefnder - cousin (m), cyfnither (f)
 Cymydog - neighbour
 Golch - the washing
 Neu'n hytrach - or even
 Pwysleisio - to emphasise
 Cyfatebol - corresponding
 Lewyrchus - successful
 Mynychu - to attend
 Meddiannu - to claim
 Yn gyfarwydd â - familiar with
 Iaith yr aelwyd - the language of home
 Pulpud - pulpit
 Tu hwnt - beyond

Dealltwriaeth - understanding
 Cyflwyno - to introduce
 Bwrlwm - excitement
 Awyr agored - open air
 Cymeriad - character
 Pa bynnag reswm - for whatever reason
 Annog - to encourage
 Colli cenhedlaeth - to lose a generation
 Cefndryd - cousins
 Amsugno - to absorb
 Crefyddol - religious
 Diau - doubtless

Llythr o Tasmania

Cyflenwi - to supply
 Cysylltiedig - connected
 Anhrefn - disorder

Hanes y Gymraeg

Sylwadau sarhaus - offensive comments
 Anghydfurfiaeth - non-conformist
 O safbwynt - from the standpoint of
 Sbardun - trigger
 Diogelu - to protect
 Gwladgarwr - patriot
 Trefedigaeth - colony
 Tramor - overseas
 Aflwyddiannus - unsuccessful
 Ymsefydlwyr - settlers
 Hunaniaeth - identity
 Dylanwad - influence
 Amcangyfrif - estimate
 Llethol - oppressive
 Ymerodraeth Brydeinig - British Empire
 Cod diwygiedig - Revised Code
 Rhifydddeg - arithmetic
 Byrddau ysgolion - school boards
 Diffyg darpariaeth - lack of preparation

Cymdeithas Hanes

Ysgogi - to stir (feelings)
 Cyfle - opportunity
 Yn raddol - gradually
 Ardaloedd diwydiannol - industrial regions
 Dirwy - fine (penalty)
 Cenhedlaeth - generation (family)
 Gelynion estron - foreign enemies
 Cargliad - collection
 Edrychiad - a look
 Unigryw - unique
 Anterth - prime